

*Patrwm cyflwyno* O fis Hydref i fis Mehefin

*Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r MA yma wedi'i ddylunio i helpu myfyrwyr i gaffael a datblygu sgiliau ymchwil mewn Athroniaeth a'u paratoi ar gyfer astudio annibynnol. Mae'n cwmpasu Estheteg Amgylcheddol, Meno gan Plato, Ymwybyddiaeth (yn enwedig gwaith David Chalmers), a Chyfiawnder Bydeang. Mae'r MA yn y traddodiad Eingl-Americanaidd – er y bydd y modiwl dilynol, A854, yn cynnwys gwaith ar Nietzsche, Foucault, ac Arendt.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- doethuriaeth neu gymhwyster cyfatebol mewn athroniaeth.
- profiad amlwg o addysgu amrywiaeth o bynciau athroniaeth ym maes addysg uwch.
- dangos y gallu i raddio aseiniadau yn gywir a rhoi adborth adeiladol i fyfyrwyr.
- profiad o addysgu ar-lein a/neu ddealltwriaeth dda o'r materion addysgegol sy'n gysylltiedig ag addysgu ar-lein.
- dangos y gallu i annog myfyrwyr i ymgysylltu ag ysgoloriaeth ac astudio annibynnol.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- diddordebau ymchwil presennol mewn unrhyw agwedd ar athroniaeth, a ddangoswyd yn ddefnyddol mewn gwaith a gyhoeddwyd.
- profiad helaeth o addysgu drwy amgylchedd ar-lein.
- tystiolaeth o fod yn flaengar i gyflwyno prosesau addysgu a dysgu gwell, neu fanteisio ar dechnoleg newydd o addysgu.
- cymhwyster addysgu (megis TAR, Cymrodoriaeth Addysg Uwch, neu gymhwyster tebyg)

*Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	4.5